Y Comisiwn Etholiadol

CROESO I
CROESO I
CROESO I
CROESO I
CROESO I

Croeso i dy bleidlais

Dilyniant dysgu

Addas i Flwyddyn 10+

Yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

comisiwnetholiadol.org.uk/dysgu

01.
Dy bleidlais

Bydd y myfyrwyr yn defnyddio sgiliau amgyffred a dadansoddi i nodi a deall sut mae gwleidyddiaeth yn effeithio ar eu bywydau a pha wleidyddion sy'n eu cynrychioli.

Amcan dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn gallu nodi materion a gaiff eu rheoli gan Senedd Cymru a Senedd y DU, a deall sut y caiff eu pleidlais ei chyfrif.

Adnoddau gofynnol:

- Ffilm 'Dy Bleidlais'
- Uwcholeuwyr/pinnau ysgrifennu lliw
- Taflen waith 'Pwy sy'n dy gynrychioli?' a mynediad i'r rhyngrwyd

Geirfa allweddol

- Y Senedd / Senedd Cymru
- Aelod o'r Senedd
- Senedd y DU
- Aelod Seneddol
- Rhanbarth
- Etholaeth
- Datganoli

Amser gofynnol:
60 munud

Opsiynau ar gyfer gwahaniaethu:

Caiff gweithgareddau ar gyfer ehangu a herio eu hawgrymu drwyddi draw.

Os bydd angen, copïwch yr eirfa allweddol a sicrhau ei bod ar gael ar bob bwrdd neu ar fwrdd arddangos.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm:

ABCh: Dinasyddiaeth weithgar CA4

Dylai'r dysgwyr ddeall:

- sut mae systemau gwleidyddol yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- y cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn prosesau penderfynu, yn lleol ac yn genedlaethol

01.
Dy bleidlais

- **I ddechrau**

Ceisiwch gael amcan o ddealltwriaeth y myfyrwyr o wleidyddiaeth a'u hagweddau ati gan ddefnyddio 'lein ddillad' lle mae'r myfyrwyr yn sefyll ar un ochr o'r ystafell dosbarth os ydynt yn cytuno'n gryf, a'r ochr arall os ydynt yn anghytuno'n gryf, neu rywle yn y canol.

Darllenwch y datganiadau canlynol yn uchel a gofynnwch i'r myfyrwyr pam eu bod wedi dewis eu safle ar hyd y sbectrwm.

- Mae gen i ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth
- Mae gwleidyddiaeth yn effeithio ar fy mywyd
- Dylai pawb bleidleisio

Gallai opsiynau amgen ar gyfer y gweithgaredd hwn gynnwys 'codi bawd/bawd i lawr' neu drafodaeth mewn parau.

- **Gwleidyddiaeth Pob Dydd – gweithgaredd grŵp**

Mewn parau neu grwpiau bach, gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu amserlen ar gyfer diwrnod arferol. Gan ddefnyddio uwcholeuwyr neu binnau ysgrifennu lliw, gofynnwch iddynt farcio neu labelu unrhyw weithgareddau y mae gwleidyddiaeth yn effeithio arnynt.

Her: a all y myfyrwyr nodi pwy sy'n gyfrifol am bob maes y maent wedi'i labelu? Er enghraifft, y cyngor lleol, Senedd Cymru neu Senedd y DU.

Enghreifftiau o wleidyddiaeth pob dydd:

7am – dal y bws i'r ysgol
Caiff gwasanaethau bysiau ysgolion eu rheoli gan Senedd Cymru.

12.15pm – cael cinio ysgol
Caiff canllawiau ar gyfer bwyta'n iach mewn ysgolion eu cyhoeddi gan Senedd Cymru.

4pm – mynd i'r parc
Caiff parciau, cyfleusterau hamdden a llyfrgelloedd eu rheoli gan y cyngor lleol.

6pm – gwylio newyddion y BBC
Caiff y BBC ei ariannu gan Lywodraeth y DU.

Rhowch adborth fel dosbarth er mwyn nodi'r meysydd gwahanol o fywydau'r myfyrwyr y mae gwleidyddiaeth yn effeithio arnynt.

Geirfa allweddol

- **Datganoli**

Llywodraeth ganolog yn rhoi pŵer i lywodraeth leol

01.
Dy bleidlais

- **Ffilm 'Dy Bleidlais'**

Gwyliwch y ffilm a gofynnwch i'r myfyrwyr wneud nodyn o'r meysydd gwahanol a gaiff eu rheoli gan gynghorau lleol, Senedd Cymru a Senedd y DU.

Gwyliwch y ffilm eto os bydd angen ac yna trafodwch fel dosbarth:

- a oedd unrhyw eiriau neu dermau nad oeddent yn eu deall? (Gweler y blwch geirfa isod)
- a oedd unrhyw beth yn y ffilm nad oeddent yn ei wybod cynt?
- beth yw rhai o'r gwahaniaethau rhwng Senedd Cymru a Senedd y DU? (Ceisiwch ennyn yr ateb y gallwch bleidleisio yn 16 oed i ethol Aelod o'r Senedd)

Gofynnwch i'r myfyrwyr edrych yn ôl dros eu hamserlen a diweddaru unrhyw weithgareddau y gallant gyda ffyrdd y mae gwleidyddiaeth yn effeithio arnynt.

- **Gwaith ymchwil**

Gan ddefnyddio'r rhyngrwyd, gofynnwch i'r myfyrwyr gwblhau'r daflen waith 'Pwy sy'n dy gynrychioli?'.

Os bydd ganddynt amser, gofynnwch iddynt feddwl am y cwestiwn olaf: tri pheth y byddent yn ei wneud pe baent yn Brif Weinidog Cymru a rhannu â'r dosbarth.

- **I gloi**

Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu unrhyw gwestiynau neu ansicrwydd sydd ganddynt mewn perthynas â gwleidyddiaeth. Gall y rhain fod yn ddienw a chael eu casglu mewn blwch i'w hystyried mewn gwersi diweddarach.

Cofiwch atgoffa'r myfyrwyr i gofrestru i bleidleisio yn gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Y Senedd / Senedd Cymru
Senedd Cymru sy'n gwneud penderfyniadau am faterion fel addysg, tai a'r GIG.

Aelod o'r Senedd
Unigolyn sy'n cynrychioli ei ardal yn y Senedd.

Senedd y DU
Senedd y DU sy'n gofalu am faterion fel amddiffyn a materion tramor.

Aelod Seneddol
Unigolyn sy'n eich cynrychioli chi yn Senedd y DU.

Rhanbarth
Y pum rhanbarth yng Nghymru yw: Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru, Gorllewin De Cymru, Canol De Cymru a Dwyrain De Cymru.

Etholaeth
Ardal leol lai y mae un o'ch Aelodau o'r Senedd yn ei chynrychioli.

01
Pwy sy'n dy Gynrychioli?

Fy enw i yw .....

Y dyddiad y byddaf yn gymwys i bleidleisio mewn etholiad yw .....

Fy etholaeth ar gyfer Senedd Cymru yw .....

Yr Aelod o'r Senedd ar gyfer fy etholaeth yw .....

Fy rhanbarth ar gyfer Senedd Cymru yw .....

Fy Aelodau o'r Senedd rhanbarthol yw .....

Fy etholaeth seneddol ar gyfer y DU yw .....

Fy Aelod Seneddol yw .....

Fy nghyngor lleol yw .....

Fy ward yw .....

Fy nghynghorwyr yw .....

Tri pheth y byddwn yn ei wneud pe bawn i'n Brif Weinidog Cymru:

1. .....
2. .....
3. .....

Awgrym da

Gallai'r gwefannau canlynol fod yn ddefnyddiol:

- Dewch o hyd i'ch Aelod o'r Senedd – chwiliwch: 'Dod o hyd i fy Aelod o'r Senedd'
- Dewch o hyd i'ch Aelod Seneddol – chwiliwch: 'Dod o hyd i fy Aelod Seneddol'
- Dewch o hyd i'ch cynghorwyr – chwiliwch: 'Dod o hyd i fy nghynghorwyr'

02.
Ein democratiaeth

Bydd y myfyrwyr yn ystyried sut mae democratiaeth yn gweithio yn eu cymuned leol, yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol. Byddant yn cael eu cyflwyno i'r cysyniad o'r hawl i bleidleisio.

Amcan dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn gallu trafod sut mae democratiaeth yn gweithio yn eu cymuned.

Adnoddau gofynnol:

- ffilm: 'Sain Ffagan: Doli Wrth-Syffrajet'
- ffilm: Ymgyrchu Gwleidyddol yng Nghymru
- gweithgaredd llinell amser – gweithgaredd trefnu cardiau neu daflen waith
- taflenni gwaith 'Pwy sy'n dy Gynrychioli?' wedi'u cwblhau o wers 1
- cwis ar-lein

Amser gofynnol:
60 munud

Opsiynau ar gyfer gwahaniaethu:

Ar gyfer y gweithgaredd llinell amser, mae dau opsiwn – gweithgaredd trefnu cardiau neu daflen waith â dyddiadau i'w paru.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm: ABCH: Dinasyddiaeth weithgar CA4

Dylai'r dysgwyr ddeall:

- sut mae systemau gwleidyddol yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- y cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn prosesau penderfynu, yn lleol ac yn genedlaethol

Geirfa Allweddol

- Democratiaeth
- Yr hawl i bleidleisio
- Swffragét
- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl
- Ymgyrchu

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

02.
Ein democratiaeth

- **I ddechrau**

Cyflwynwch y term ‘yr hawl i bleidleisio’ gan ddefnyddio ras geiriadur, gêm llenwi'r bylchau (*hangman*) neu'r daflen geirfa allweddol ar gyfer yr uned hon.

Gwyliwch y ffilm o guradur yn amgueddfa Sain Ffagan yn sôn am ‘y ddoli wrth-Syffrajet’ a thrafodwch fel dosbarth.

Gallai cwestiynau ysgogi gynnwys:

- unrhyw eiriau neu ymadroddion nad oedd y myfyrwyr eisoes yn eu gwybod
- dros beth roedd y Swffragetiaid yn brwydro?
- pwy a allai fod wedi creu'r ddol a pham y byddai wedi'i hanfon?
- mae'r curadur yn dweud bod y ddol ‘yn ymgorffori y propaganda gwrth-syffrajetaidd’, beth mae hyn yn ei olygu tybed?
- **Llinell amser – gweithgaredd grŵp**

Mewn grwpiau bach, rhowch y cardiau o'r gweithgaredd llinell amser i'r myfyrwyr. Dylent osod yr etholiadau mewn trefn gronolegol.

Ar ôl i chi fynd drwy'r atebion cywir gyda'r dosbarth, trafodwch. Gallai cwestiynau ysgogi gynnwys:

- a oes unrhyw ddyddiadau yn peri syndod?
- a ydynt yn sylwi ar unrhyw batrymau neu fylchau?
- a oes unrhyw ‘ddigwyddiadau cyntaf’ eraill o ran etholiadau yr hoffent ddysgu mwy amdanynt?
- **Trafodaeth**

Sut mae gwleidyddion yn cael eu hethol?

Trafodwch fel dosbarth er mwyn cynhyrchu syniadau cychwynnol.

Dylech atgoffa'r myfyrwyr ein bod yn pleidleisio dros berson mewn rhai etholiadau ond, yn aml, ein bod yn pleidleisio dros gynrychiolydd plaid wleidyddol. Gwyliwch y ffilm hon am ymgyrchu yn ystod etholiadau ac atebwch unrhyw gwestiynau sy'n codi.

Pwy sy'n dy Gynrychioli?

Mewn parau, dylai'r myfyrwyr edrych ar y rhestr y gwnaethant ei chynhyrchu ar gyfer y daflen waith ‘Pwy sy'n dy Gynrychioli?’.

Drwy drafod, dylai'r myfyrwyr benderfynu a ydynt yn teimlo bod y rhestr yn cynrychioli eu cymuned. Gallai cwestiynau ysgogi defnyddiol gynnwys:

- a oes gan y bobl sydd wedi'u rhestru yma gefndir teuluol ac addysgol tebyg i chi neu i rywun o'ch cymuned?

02.
Ein democratiaeth

- a oes unrhyw bethau tebyg neu wahanol rhwng y cynrychiolwyr ar eich rhestr?
- a oes nifer cyfartal o ddynion a menywod ar y rhestr?
- a ydych yn cytuno â barn wleidyddol y bobl sy'n eich cynrychioli?

Her:

- a fyddai pawb yn eich cymuned yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli mewn rhyw ffordd gan y bobl ar y rhestr hon?
- pe bai rhywun yn teimlo nad yw'r bobl ar y rhestr yn ei gynrychioli, pa gamau posibl y gallai eu cymryd? (Er enghraifft, defnyddio ei bleidlais neu sefyll etholiad ei hun)
- **I gloi**

Cwblhewch y cwis ar waelod y dudalen we hon fel dosbarth a thrafodwch unrhyw atebion anghywir.

Fel arall, tynnwch rai o'r cwestiynau dienw allan – atebwch nhw eich hun, rhowch gyfle i'r myfyrwyr eu hateb neu chwiliwch am yr atebion ar-lein gyda'ch gilydd.

Cofiwch atgoffa'r myfyrwyr i gofrestru i bleidleisio yn gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Geirfa Allweddol

Democratiaeth
System lywodraethol lle mae pobl yn pleidleisio i ethol y bobl sy'n eu cynrychioli.

Yr hawl i bleidleisio

Yr hawl i bleidleisio mewn etholiad gwleidyddol.

Swffragét

Yr enw a roddir i fenywod a frwydrodd dros eu hawl i bleidleisio.

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl

Y ddeddf a basiwyd yn 1918 a roddodd ganiatâd i rai menywod bleidleisio. Cafodd y ddeddf ei diweddaru yn 1928 er mwyn caniatáu i bob menyw dros 21 oed bleidleisio.

Ymgyrchu

Gweithgareddau sy'n annog pobl i gefnogi mater neu blaid wleidyddol.

02.

Ein democratiaeth

Torrwch y digwyddiadau allan a'u gosod mewn trefn gronolegol o'r un cynharaf i'r un diweddaraf.

Y wlad gyntaf i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed	Enillodd pobl frodorol yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Awstralia
Yr etholiad cyntaf a gofnodwyd erioed	Roedd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio yn etholiadau Senedd Cymru am y tro cyntaf
Yr etholiad cyntaf yn India ar ôl i'r wlad ennill annibyniaeth o awdurdod trefedigaethol Prydeinig	Cafodd yr oedran pleidleisio yn y DU ei ostwng o 21 i 18 oed
Caniatawyd i rai menywod bleidleisio yn etholiadau'r DU	Yr etholiad cyntaf a gofnodwyd lle roedd dinasyddion Du yn Ne Affrica yn gallu pleidleisio
Y senedd genedlaethol gyntaf i ethol mwy o gynrychiolwyr benywaidd na rhai gwrywaidd	Yr etholiad datganoledig cyntaf yng Nghymru
Y menywod cyntaf yn y byd a gafodd yr hawl i bleidleisio, heb unrhyw amodau	Yr Aelod Seneddol Du cyntaf a gafodd ei ethol yn y DU

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

02.
Ein democratiaeth

Yr atebion cywir ar gyfer y gweithgaredd llinell amser.

Yr etholiad cyntaf a gofnodwyd erioed	754 CC yn yr Hen Roeg
Yr Aelod Seneddol Du cyntaf a gafodd ei ethol yn y DU	1832 – John Stewart, Aelod Seneddol Ceidwadol ar gyfer Lymington, 1832-1847
Y menywod cyntaf yn y byd a gafodd yr hawl i bleidleisio, heb unrhyw amodau	1893 – enillodd pobl Maori brodorol ac ymsefydlwyr Ewropeaidd yn Seland Newydd yr hawl i bleidleisio
Caniatawyd i rai menywod bleidleisio yn etholiadau'r DU	1918 (cafodd menywod yr un hawliau pleidleisio â dynion yn 1928)
Yr etholiad cyntaf yn India ar ôl i'r wlad ennill annibyniaeth o awdurdod trefedigaethol Prydeinig	1951 – 52
Enillodd pobl frodorol yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Awstralia	1962
Cafodd yr oedran pleidleisio yn y DU ei ostwng o 21 i 18 oed	1970
Y wlad gyntaf i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed	1984 – Nicaragua
Yr etholiad cyntaf a gofnodwyd lle roedd dinasyddion Du yn Ne Affrica yn gallu pleidleisio	1994 – cafodd yr ANC (*African National Congress*) ei hethol a daeth Nelson Mandela yn Arlywydd
Yr etholiad datganoledig cyntaf yng Nghymru	1999 – fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn iddo newid i'r Senedd
Y senedd genedlaethol gyntaf i ethol mwy o gynrychiolwyr benywaidd na rhai gwrywaidd	2008 – yn Rwanda
Roedd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio yn etholiadau Senedd Cymru am y tro cyntaf	2021

02.
Ein democratiaeth

Parwch yr etholiad â'r flwyddyn gywir

Y wlad gyntaf i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed	754 CC
Enillodd pobl frodorol yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Awstralia	1832
Yr etholiad cyntaf a gofnodwyd erioed	2008
Roedd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio yn etholiadau Senedd Cymru am y tro cyntaf	1893
Yr etholiad cyntaf yn India ar ôl i'r wlad ennill annibyniaeth o awdurdod trefedigaethol Prydeinig	1918
Cafodd yr oedran pleidleisio yn y DU ei ostwng o 21 i 18 oed	1951 – 52
Caniatawyd i rai menywod bleidleisio yn etholiadau'r DU	1962
Yr etholiad cyntaf a gofnodwyd lle roedd dinasyddion Du yn Ne Affrica yn gallu pleidleisio	1970
Y senedd genedlaethol gyntaf i ethol mwy o gynrychiolwyr benywaidd na rhai gwrywaidd	1984
Yr etholiad datganoledig cyntaf yng Nghymru	1994
Y menywod cyntaf yn y byd a gafodd yr hawl i bleidleisio, heb unrhyw amodau	1999
Yr Aelod Seneddol Du cyntaf a gafodd ei ethol yn y DU	2021

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

03.
Pŵer pobl

Bydd y myfyrwyr yn ystyried rôl pleidleisio drwy baratoi ar gyfer dadl a chymryd rhan ynddi.

Amcan dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn gallu trafod pwysigrwydd pleidleisio.

Adnoddau gofynnol:

- pedwar darn o bapur wedi'u labelu â'r geiriau ‘yn ddig’, ‘yn wael’, ‘yn drist’ ac ‘yn falch’ neu ar fyrddau gwyn unigol
- deunyddiau i baratoi ar gyfer dadl – er enghraifft, mynediad i'r rhyngrwyd, nodiadau gludiog, neu binnau ysgrifennu lliw
- ffilm ar sut i gofrestru i bleidleisio

Amser gofynnol:
60 munud

Opsiynau ar gyfer gwahaniaethu:

Caiff gweithgareddau ar gyfer ehangu a herio eu hawgrymu drwyddi draw.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm: ABCH: Dinasyddiaeth weithgar CA4

Dylai'r dysgwyr ddeall:

- y cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn prosesau penderfynu, yn lleol ac yn genedlaethol
- pwysigrwydd cymryd rhan mewn etholiadau democrataidd a'r cysylltiadau rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau eu hunain

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

03.
Pŵer pobl

- **Y rheolau sylfaenol**

Sefydlwch reolau sylfaenol ar gyfer trafodaethau. Dylech atgoffa'r myfyrwyr nad oes rhaid iddynt gytuno â'i gilydd, ond bod rhaid iddynt barchu barn ei gilydd.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol cadw'r rhestr hon o reolau sylfaenol ar wal waith neu mewn man gweladwy yn yr ystafell er mwyn cyfeirio'n ôl ati drwy gydol yr uned hon.

- **I ddechrau**

Rhowch fyfyriwr sydd wedi gwirfoddoli ym mlaen yr ystafell a rhowch bedwar arwydd iddo: 'yn ddig', 'yn wael', 'yn drist' ac 'yn falch'.

Rhannwch amrywiaeth o ddatganiadau â'r myfyriwr. Gofynnwch iddo godi'r arwydd sy'n disgrifio orau sut mae'n teimlo am y datganiad ac esbonio ei ymateb.

Gallai datganiadau gynnwys:

- dylai pleidleisio fod yn orfodol
- nid oes gan bobl ifanc ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth
- gall pobl ifanc yng Nghymru bleidleisio pan fyddant yn 16 oed
- yr oedran gofynnol ar gyfer pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU yw 18 oed
- mae gwleidyddiaeth yn ddiflas
- nid oes gan bawb yn y byd yr hawl i bleidleisio

Rhowch gyfle i'r myfyrwyr eraill gamu i flaen y dosbarth ac ymateb – efallai y byddant am ymateb yn wahanol i rai o'r datganiadau. Dylech annog gweddill y dosbarth i gynnig datganiadau am wleidyddiaeth.

Fel arall, gallech roi'r cyfle i'r dosbarth cyfan ymateb gan ddefnyddio byrddau gwyn unigol neu lableu pedair cornel yr ystafell â'r geiriau 'yn ddig', 'yn wael', 'yn drist' ac 'yn falch' a gofyn i'r myfyrwyr symud i'r gornel sy'n disgrifio eu hymateb orau.

03.
Pŵer pobl

- **Paratoi ar gyfer dadl**

Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm a rhowch amser iddynt baratoi ar gyfer dadl yn seiliedig ar y datganiad canlynol:

“Dylai pawb ddefnyddio eu pleidlais

Efallai y bydd angen mynediad i'r rhyngrwyd, nodiadau gludiog, dalennau mawr o bapur a deunyddiau eraill arnynt.

- **Dadl**

Cynhaliwch ddadl dosbarth gan ddefnyddio pa ffurf bynnag y byddwch yn ei defnyddio fel arfer. Fel arall, dewiswch un o'r opsiynau o'r blwch isod.

Gofynnwch i'r myfyrwyr fyfyrio ar b'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno'n bersonol â chanlyniad y ddadl.

- **I gloi**

Gwyliwch y ffilm ar sut i gofrestru i bleidleisio.

Esboniwch i'r myfyrwyr yn y dosbarth eu bod am ddylunio ymgyrch i annog pobl ifanc i gofrestru i bleidleisio.

Cofiwch atgoffa'r myfyrwyr i gofrestru i bleidleisio yn gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

- **Gwaith cartref (dewisol)**

Cyn y wers nesaf, dylent lunio rhestr o rai o'r rhwystrau posibl y gallai fod angen iddynt eu goresgyn yn eu hymgyrch.

Dadl dosbarth cyfan
Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm a gofynnwch iddynt ethol dau gynrychiolydd. Bydd y siaradwr cyntaf o blaid y cynnig yn gwneud sylwadau agoriadol, wedi'i ddilyn gan y siaradwr cyntaf yn erbyn y cynnig, yr ail siaradwr o blaid y cynnig a'r ail siaradwr yn erbyn y cynnig. Yna bydd y drafodaeth yn agored i'r llawr a rhoddir cyfle i'r timau wneud datganiadau a gofyn cwestiynau yn herio safbwynt ei gilydd. Bydd cadeirydd (athro neu banel myfyrwyr) yn crynhoi ac yn penderfynu ar y tîm buddugol.

Powlen pysgodyn aur
Mae grŵp bach o fyfyrwyr yn eistedd yng nghanol yr ystafell ac yn dadlau safbwyntiau gwrthwynebol, tra bo gweddill y dosbarth yn eistedd o'u hamgylch ac yn gwrando'n weithredol. Gallai'r gwrandawyr gefnogi eu hymgeisydd drwy ddarparu nodiadau gludiog. Ardderchog ar gyfer modelu trafodaeth dda ac ehangu'r gweithgaredd.

Tri yn Sgwrsio
Mewn grwpiau o dri, mae'r myfyrwyr yn cymryd eu tro i ymgymryd â rôl Cefnogwr, Gwrthwynebydd a Chrynhöwr. Mae'r Cefnogwr a'r Gwrthwynebydd yn dadlau o blaid eu safbwynt ac mae'r Crynhöwr yn dangos sgiliau gwrando gweithredol ac yn gofyn cwestiynau treiddgar.

04.
Ymgyrchu

Bydd y myfyrwyr yn deall ystyr ymgyrchu gwleidyddol ac yn ystyried yr hyn sy'n dylanwadu ar bobl i bleidleisio.

Amcan dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn gallu dadansoddi pwy sydd â'r pŵer yn eu cymuned.

Bydd y myfyrwyr yn ystyried pa dechnegau ymgyrchu a ddefnyddir gan bleidiau gwleidyddol a'r hyn sy'n dylanwadu arnoch.

Adnoddau gofynnol:

- Taflen waith bingo gwleidyddol
- Cardiau 'Beth sy'n Dylanwadu?'

Amser gofynnol:
60 munud

Opsiynau ar gyfer gwahaniaethu:

Caiff gweithgareddau ar gyfer ehangu a herio eu hawgrymu drwyddi draw.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm:
ABCH: Dinasyddiaeth weithgar CA4

Dylai'r dysgwyr ddeall:

- sut mae systemau gwleidyddol yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- y cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn prosesau penderfynu, yn lleol ac yn genedlaethol
- pwysigrwydd cymryd rhan mewn etholiadau democrataidd a'r cysylltiadau rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau eu hunain

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

04.
Ymgyrchu

- **I ddechrau**

Rhowch daflen ‘bingo gwleidyddol’ i bob myfyriwr a gadael iddo symud o gwmpas yr ystafell er mwyn dod o hyd i gyd-fyfyriwr ar gyfer pob datganiad. Dylai'r myfyrwyr geisio cael enw gwahanol ar gyfer pob un.

- **Gweithgaredd grŵp ‘Beth sy'n Dylanwadu?’**

Mewn grwpiau bach, rhowch set o gardiau ‘Beth sy'n Dylanwadu?’ i'r myfyrwyr.

Efallai y byddai'n fuddiol dechrau gyda thrafodaeth dosbarth am yr hyn sy'n dylanwadu ar brosesau penderfynu yn ein bywydau pob dydd. Er enghraifft, sut rydym yn dewis beth i'w wylio ar y teledu neu beth rydym am ei wneud ar y penwythnos?

Yn eu grwpiau, dylai'r myfyrwyr ddychmygu bod etholiad yfory a'u bod wedi penderfynu pleidleisio. Gofynnwch iddynt ddewis y tri phrif beth a allai ddylanwadu ar ba ymgeisydd neu blaid wleidyddol fydd yn cael eu pleidlais.

Dewch yn ôl at eich gilydd fel dosbarth i drafod pam y gwnaethant ddewis dylanwadau penodol.

Her: a oes unrhyw ddylanwadau eraill nad ydynt wedi'u rhestru ar y cardiau a allai effeithio ar eu dewis?

- **Gwaith ymchwil**

Dylech atgoffa'r myfyrwyr y byddant yn cynllunio ymgyrch. Byddwn yn defnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu am y ffordd y mae pleidiau gwleidyddol yn ymgyrchu ac yn ei gymhwyso i senario wahanol. Byddwn yn ymgyrchu i annog myfyrwyr i gofrestru i bleidleisio.

Y cam cyntaf yw nodi'r rhwystrau posibl a allai atal pobl ifanc rhag cofrestru i bleidleisio. Gallant wneud hyn drwy gyfweld â'u cyd-fyfyrwyr. (Gellid ehangu hyn i fod yn dasg gwaith cartref hefyd er mwyn i'r myfyrwyr gasglu mwy o ddata.)

Dylech atgoffa'r myfyrwyr pa mor bwysig yw gofyn cwestiynau penagored ac, os bydd angen, gallwch lunio cwestiynau ymchwil fel dosbarth. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- wyt ti wedi cofrestru i bleidleisio? Pam/pam ddim?
- wyt ti'n bwriadu cofrestru i bleidleisio cyn dy ben-blwydd yn 16 oed/cyn yr etholiad nesaf? Pam/pam ddim?
- beth allai dy atal di neu dy ffrindiau rhag cofrestru i bleidleisio?

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

04.
Cardiau ‘Beth sy'n Dylanwadu?’

Barn oedolion gartref	Yr hyn y mae ymgeiswyr yn ei ddweud y maent am ei wneud i bobl ifanc	Arweinwyr pleidiau gwleidyddol	Pwy sydd fwyaf poblogaidd	Barn fy ffrindiau
Pa mor ddibynadwyyw ymgeisydd gwleidyddol neu blaid wleidyddol yn fy marn i	Yr hyn rwyf wedi'i weld ar y teledu	Fy mhrofiad personol o blaid wleidyddol neu ymgeisydd gwleidyddol	Yr hyn rwyf wedi'i ddarllen ar-lein ac mewn papurau newydd	Yr ymgyrch etholiadol
Swydd flaenorol ymgeisydd	Fy swydd	Siarad ag ymgyrchydd plaid wleidyddol pan fydd yn curo ar fy nrws	Polisïau neu faniffestos y pleidiau gwleidyddol	Cyfarfod ymgeisydd
Oedran ymgeisydd	Fy oedran	Cefndir addysgol ymgeisydd	Fy rhywedd	Enwogion neu ddylanwadwyr
Taflenni	Ble mae ymgeisydd yn byw	Fy nghefndir	Cefndir ymgeisydd	Sut mae ymgeisydd yn edrych

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

04.
Ymgyrchu

- **Cynllunio ymgyrch**

Rhowch y myfyrwyr mewn timau ymgyrchu. Unwaith y byddant wedi cwblhau eu gwaith ymchwil, gofynnwch i'r tîm gymharu'r ymatebion a llunio rhestr o'r rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu mewn perthynas â chofrestru i bleidleisio. A wnaeth unrhyw rai o'r rhwystrau hyn godi mwy nag unwaith?

Dylai'r timau ddewis y rhwystr mwyaf arwyddocaol y maent am ei herio gyda'u hymgyrch a dylunio 'neges allweddol', er enghraifft, y syniad y maent am i bobl ei gael o'r ymgyrch.

Yna dylent gynllunio gweithgareddau a fydd yn annog pobl 14 oed neu drosodd i gofrestru i bleidleisio yn eu barn nhw.

Cymorth ychwanegol: gall y myfyrwyr ddefnyddio'r cardiau 'Beth sy'n Dylanwadu?'

Meini prawf llwyddiant:

- rhestr o rwystrau
- neges allweddol
- cynllun gweithgareddau ymgyrchu

ac ailedrych ar y ffilm am ymgyrchu gwleidyddol o'r ail wers yn yr uned hon i'w helpu i feddwl am syniadau ar gyfer eu hymgyrch.

- **I gloi**

Rhowch 60 eiliad i bob tîm i rannu ei ganfyddiadau a chynnig negeseuon allweddol yr ymgyrch.

Gall gweddill y dosbarth gael y cyfle i roi adborth cadarnhaol ac adeiladol gan ddefnyddio'r fframwaith adborth y mae'r myfyrwyr yn gyfarwydd ag ef.

Cofiwch atgoffa'r myfyrwyr i gofrestru i bleidleisio yn gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

04.
Bingo Gwleidyddol

Dewch o hyd i rywun sydd wedi cwrdd â gwleidydd Enw:	Dewch o hyd i rywun sy'n gallu enwi Prif Weinidog Cymru Enw:
Dewch o hyd i rywun sydd wedi cymryd rhan mewn ffug etholiad yn yr ysgol neu'r coleg Enw:	Dewch o hyd i rywun sydd wedi llofnodi deiseb Enw:
Dewch o hyd i rywun sy'n gallu enwi ei Aelod o'r Senedd Enw:	Dewch o hyd i rywun sydd wedi bod ar orymdaith Enw:
Dewch o hyd i rywun sydd wedi gwneud araith Enw:	Dewch o hyd i rywun sy'n bwriadu pleidleisio neu wedi pleidleisio mewn etholiad Enw:
Dewch o hyd i rywun sydd wedi rhoi arian i elusen yn ystod y tri mis diwethaf Enw:	Dewch o hyd i rywun sydd â diddordeb mewn materion amgylcheddol Enw:
Dewch o hyd i rywun sy'n gallu enwi pedair plaid wleidyddol Enw:	Dewch o hyd i rywun sy'n gallu enwi ei gynghorydd lleol Enw:

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

05.
Cynllunio ymgyrch

Bydd y myfyrwyr yn gweithio mewn timau i gynhyrchu deunyddiau ymgyrchu.

Amcan dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn gallu cynhyrchu deunyddiau ymgyrchu perswadiol.

Adnoddau gofynnol:

- taflenni gwaith enghreifftiau o bosteri ymgyrchu
- deunyddiau ar gyfer creu posteri, fel papur siwgr a phinnau ffelt
- mynediad i'r rhyngrwyd

Amser gofynnol:
60 munud

Opsiynau ar gyfer gwahaniaethu:

Caiff gweithgareddau ar gyfer ehangu a herio eu hawgrymu drwyddi draw.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm:
ABCH: Dinasyddiaeth weithgar CA4

Dylai'r dysgwyr ddeall:

- sut mae systemau gwleidyddol yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- y cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn prosesau penderfynu, yn lleol ac yn genedlaethol
- pwysigrwydd cymryd rhan mewn etholiadau democrataidd a'r cysylltiadau rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau eu hunain

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

05.
Cynllunio ymgyrch

- **I ddechrau**

Mewn grwpiau o dri neu fwy, rhowch bapur neu fyrddau gwyn i'r myfyrwyr gyda'r rhifau 16, 18 a 21 arnynt.

Darllenwch y gwledydd sydd wedi'u rhestru gyferbyn fel cwis. Dylai pob tîm godi'r rhif sy'n dangos yr oedran pleidleisio yn y wlad honno yn eu barn nhw. Rhowch wobr fach i'r tîm buddugol.

- **Dadansoddi posteri**

Mewn parau, gofynnwch i'r myfyrwyr edrych ar yr enghreifftiau o bosteri ymgyrchu a ddarparwyd. Dylent geisio dadansoddi pa mor effeithiol yw'r poster. Gallai'r cwestiynau ysgogi canlynol fod yn ddefnyddiol:

- o ba wlad y mae'r poster ymgyrchu hwn yn dod? Sut y gallwch ddweud hynny?
- pa liwiau a ddefnyddiwyd? Pam?
- pa ddelweddau neu symbolau a ddefnyddiwyd? Pa neges y mae hyn yn ei rhoi i'r darllenydd?
- sut mae'r testun yn ymddangos? Pa argraff y mae hyn yn ei rhoi i'r darllenydd?
- beth mae'r testun yn ei ddweud? Pa neges y mae hyn yn ei rhoi i'r darllenydd?

Cwis oedrannau pleidleisio gydag atebion

- Y DU (18)
- Tanzania (18)
- Ffrainc (18)
- Libanus (21)
- Seland Newydd (18)
- Tsieina (18)
- Nicaragua (16)
- Singapore (21)
- Gwlad Pwyl (18)
- Cymru (16 ar gyfer etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau lleol)

- a yw maint a lleoliad y poster yn effeithio ar ei neges neu'n ei chefnogi?
- a yw'r poster ymgyrchu yn effeithiol? Pam/pam ddim?

Rhowch barau gyda'i gilydd i gymharu eu posteri a phenderfynu pa boster sydd fwyaf effeithiol.

Estyniad: mae sawl un o'r posteri wedi cael eu cymryd o erthyglau newyddion yn trafod ymgyrchoedd etholiadol neu wleidyddol. Gallai'r myfyrwyr edrych ar yr erthyglau hyn fel ymchwil ar gyfer eu hymgyrchoedd eu hunain.

Mae'r posteri o etholiadau neu ymgyrchoedd yn UDA, Gwlad Pwyl, Tsieina (1971), Libanus, Tanzania a'r DU.

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

05.
Cynllunio ymgyrch

- **Cynllunio ymgyrch – gweithgaredd grŵp**

Yn eu timau ymgyrchu, dylai'r myfyrwyr ailedrych ar y gweithgareddau a gynlluniwyd ganddynt a dechrau gweithio ar gynhyrchu unrhyw ddeunyddiau, fel posteri ymgyrchu, ysgrifennu araith neu gyflwyniad ar gyfer gwasanaeth, sicrhau caniatâd i osod arddangosfa yn yr ysgol.

Dylech atgoffa'r myfyrwyr i edrych yn ôl ar y neges allweddol y gwnaethant ei llunio yn y wers ddiwethaf a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar nod eu hymgyrch: annog myfyrwyr 14 oed a throsodd i gofrestru i bleidleisio yn gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Caiff rhai rolau posibl ar gyfer y tîm eu hamlinellu isod. Mae'n debyg y bydd angen rheolwr ymgyrchu a dylunydd ar bob tîm, ond mae'r rolau eraill yn ddewisol yn dibynnu ar gynllun ymgyrchu'r tîm, ac efallai y bydd gan bob myfyriwr sawl rôl.

Rheolwr ymgyrchu
Mae rolau yn cynnwys: arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau terfynol, sicrhau bod y gweithgarwch a gynlluniwyd yn mynd rhagddo, cysylltu ag unrhyw uwch-randdeiliaid, fel y cynghorydd lleol, Aelod o'r Senedd neu'r Aelod Seneddol.

Dylunydd
Bydd yr unigolyn hwn yn penderfynu pa liwiau, delweddau a symbolau fydd fwyaf effeithiol, yn cynhyrchu deunyddiau fel posteri neu daflenni, ac yn cynllunio byrddau arddangos.

Trefnydd
Bydd yr unigolyn hwn yn sicrhau'r caniatâd perthnasol, er enghraifft i ddefnyddio byrddau arddangos, i gynnal sesiwn wybodaeth yn y llyfrgell, i'r grŵp roi areithiau yn ystod y cyfnod cofrestru.

Ysgrifennwr areithiau
Bydd yr unigolyn hwn yn ysgrifennu areithiau neu'n paratoi cyflwyniadau a gaiff eu cyflwyno i'r myfyrwyr eraill naill ai ganddo'i hun neu gan y rheolwr ymgyrchu. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn ysgrifennu llythyrau at randdeiliaid, fel tiwtoriaid dosbarth neu swyddogion.

Ymchwilydd
Bydd yr unigolyn hwn yn profi deunyddiau (fel poster, llinellau o araith) er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cyfleu'r neges allweddol yn effeithiol. Bydd yn siarad â myfyrwyr yn ystod digwyddiadau ymgyrchu neu ar eu hôl i weld a ydynt wedi penderfynu cofrestru i bleidleisio a chasglu adborth ar yr ymgyrch.

Rheolwr y cyfryngau/cyfryngau cymdeithasol
Bydd yr unigolyn hwn yn ysgrifennu erthygl ar gyfer blog neu bapur newydd yr ysgol, yn cynllunio i feddiannu cyfrif Twitter yr ysgol am ddiwrnod, yn ysgrifennu llythyr i bapur newydd lleol neu e-grawn y mae llawer o fyfyrwyr yn ei ddarllen er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch.

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

05.
Cynllunio ymgyrch

Cymerwyd o ideas.ted.com ‘Gallery: 12 colorful posters to inspire you to turn out and vote’

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

05.
Cynllunio ymgyrch

Cymerwyd o lbbbonline.com ‘Your Shot: VMLY&R Is Voting for Love in the Polish Elections’

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

05.
Cynllunio ymgyrch

Cymerwyd o alrabiya.net ‘Record women candidates in Lebanon vote, but you can't tell from TV’

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

05.
Cynllunio ymgyrch

Cymerwyd o The Guardian ‘The Sleeping Giant: how Chinese posters pushed products and propaganda’

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

05.
Cynllunio ymgyrch

Ymgyrch ‘Oes 5 'da ti?’ y Comisiwn Etholiadol i annog pleidleiswyr i gofrestru, 2021.

06.
Democratiaeth ar waith

Bydd y myfyrwyr yn cyflwyno eu hymgyrchoedd ac yn myfyrio ar yr hyn sy'n gwneud ymgyrch yn llwyddiannus, a byddant yn cael y cyfle i gofrestru i bleidleisio.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r wers hon gael ei chynnal sawl wythnos ar ôl i'r myfyrwyr gyflwyno eu hymgyrch yn yr ysgol, er mwyn rhoi cyfle iddynt drafod unrhyw adborth neu lwyddiannau.

Amcan dysgu:
Bydd y myfyrwyr yn gallu myfyrio ar ba mor effeithiol oedd eu hymgyrchoedd.

Adnoddau gofynnol:

- deunyddiau i gynhyrchu cyflwyniad ar gyfer pob ymgyrch os bydd angen (gellid gosod y dasg hon fel gwaith cartref cyn y wers)
- mynediad i'r rhyngrwyd er mwyn cofrestru i bleidleisio

Amser gofynnol:
60 munud

Opsiynau ar gyfer gwahaniaethu:

Rydym wedi awgrymu bod y bobl ifanc yn cynnal eu hymgyrchoedd cyn dod yn ôl at ei gilydd i gymryd rhan yn y sesiwn hon. Opsiwn arall yw cynnal y sesiwn hon gyntaf a chaiff yr ymgyrch fuddugol ei chyflwyno gan y dosbarth drwy'r ysgol.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm: ABCH: Dinasyddiaeth weithgar CA4

Dylai'r dysgwyr ddeall:

- y cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn prosesau penderfynu, yn lleol ac yn genedlaethol
- pwysigrwydd cymryd rhan mewn etholiadau democrataidd a'r cysylltiadau rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau eu hunain

06.
Democratiaeth ar waith

- **I ddechrau**

Gofynnwch i'r myfyrwyr ymateb i'r cwestiynau canlynol drwy godi llaw:

- pwy a oedd eisoes wedi cofrestru i bleidleisio cyn y tymor hwn?
- pwy sy'n bwriadu cofrestru i bleidleisio nawr?
- pwy sydd ddim yn bwriadu cofrestru i bleidleisio?

Gofynnwch i'r myfyrwyr rannu eu rhesymau (gan eu hatgoffa o'r rheolau sylfaenol ar gyfer trafodaeth barchus os bydd angen).

- **Cyflwyniadau'r timau**

Gofynnwch i bob tîm gyflwyno ei ymgyrch i weddill y dosbarth. Byddai'n ddefnyddiol i aelodau'r tîm gynnwys:

- beth oedd eu neges allweddol?
- pa ddeunyddiau y gwnaethant eu defnyddio (er enghraifft, rhannu posteri neu ddyfyniad o lythyr neu araith)
- pa weithgareddau ymgyrchu y gwnaethant eu cyflwyno?
- beth oedd yn effeithiol iawn am eu hymgyrch?
- beth na weithiodd neu a oedd yn anoddach na'r disgwyl?
- a wnaeth unrhyw beth newid o'u cynllun ymgyrchu?
- a gawsant unrhyw adborth ar yr ymgyrch? A ydynt yn gwybod am unrhyw fyfyrwyr sydd wedi cofrestru i bleidleisio o ganlyniad i'w hymgyrch?

- **Pleidleisio**

Fel dosbarth neu mewn grwpiau, trafodwch pa ymgyrchoedd oedd fwyaf effeithiol a pham. A oedd elfennau tebyg yn yr ymgyrchoedd mwyaf llwyddiannus?

Fel dosbarth, pleidleisiwch dros yr ymgyrch fwyaf llwyddiannus drwy roi enwau'r rheolwyr ymgyrchu ar y papurau pleidleisio.

- **Cofrestru i bleidleisio**

Rhowch gyfle i'r myfyrwyr gofrestru i bleidleisio ar-lein yn gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Gwyliwch y ffilm ar sut i gofrestru i bleidleisio eto, os bydd yn ddefnyddiol.

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

06.
Democratiaeth ar waith

Gofynnwch i'r myfyrwyr bleidleisio dros eu hoff ymgyrch. Rhowch enwau'r rheolwyr ymgyrchu yn y golofn ar y chwith ar y papur pleidleisio enghreifftiol hwn.

Pleidleisiwch dros eich hoff ymgeisydd drwy roi ‘X’ yn y blwch	

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE